

❖ DIOLCH AM Y NADOLIG

Roeddwn yn digwydd siarad â chyfaill i mi yn ddiweddar ym marchnad Llanelli, a'r lle'n llawn prysurdeb – pobl yn rhuthro hwnt ac yma a'u basgedi'n llwythog dan ddanteithion Nadolig. Yn ystod y sgwrs meddai'r cyfaill wrthyf:

‘Weles i erioed gymaint o ruthro aboutu na'r Nadolig hwn: fe fydda i'n falch iawn i weld popeth drosto – dwy'n edrych mlân i'r amser pan fydd y Nadolig hwn wedi mynd heibio.’

Nawr mae gen i barch mawr i safbwynt fy nghyfaill, achos mae e'n fachan rhwydd i ddod mlân ag e', yn ŵr respectabl a sensibl, yn llawn llathen a thipyn i sbario! Ond fe fues i'n meddwl yn ddwys am yr hyn ddywedodd e'. Oni chafodd bethe go chwith? Nid edrych mlân ddylen ni i'r amser hwnnw pan fydd y Nadolig wedi mynd heibio, ond diolch ei fod wedi dod!

O gofio am gyflwr miloedd o bobl y byd heddi sy'n ddigartre, yn ddideulu a diddyfodol, onid diolch ddylen ni am neges y Nadolig, a'i ddyfod i fyd drylliedig fel ein byd ni? Onid dyma'r neges sy'n gwasgar goleuni lle mae tywyllwch, heddwch lle mae helynt, a brawdgarwch lle mae gelyniaeth? Oni ddylem ddiolch mai Nadolig a gyhoedda'r 'newyddion da o lawenydd mawr' gan gynnig tangnefedd ar y ddaear ac ewyllys da i bobl yr holl fyd? Ynghanol ein holl ruthro a'n prysurdeb, mor hawdd ydy anghofio diolch.

Mi glywes am siop beth amser yn ôl a agorodd adran arbennig i'r plant i anfon llythyre at Santa Clôs. Fe dderbyniwyd dros fil o lythyre oddi wrth y plant yn gofyn am gannoedd o wahanol anrhegion ond dim ond un plentyn a ysgrifennodd lythyr o ddiolch i Santa! Onid un o'r gwahangleifion a ddychwelodd i ddiolch i Grist am iachâd? Fe sylweddolodd hwn gymaint a gollodd cyn yr iacháu! Dim ond un a fu'n dioddef hir gystudd ac a iachawyd all lwyr werthfawrogi gwyrrth yr iacháu! Ond nid colli wnawn ni adeg y Nadolig ond cael, y cael a gymerwn mor ganiataol.

Onid yw'n berygl i'n bywyd fynd mor artiffisial ag addurniadau'r Nadolig ei hun? Onid cydio yn y silowet wnawn ni'n aml yn lle'r sylwedd ei hun? Cymaint y pethe artiffisial, sêr artiffisial, barrug artiffisial, eira artiffisial, coeden Nadolig artiffisial! Onid pen draw pob artiffisialeiddwch yw colli cysylltiad â'r peth byw, real, â'r Duw byw, â'r Baban yn y crud? Wrth roi Crist mewn cracer fe gollwn Iesu Bethlehem! Di-hid gennym ni heddi 'y dieithr oer' chwedl y bardd Gwyn Thomas 'sy'n tarfu ar hwyl y cracers'!

Fe gawsom ni garden Nadolig eleni a wnaeth argraff fawr arna' i oherwydd y cyfarchiad tu mewn iddi:

‘Boed i ryfeddod, tangnefedd a llawenydd y Nadolig aros gyda chwi drwy gydol y flwyddyn.’

Dyna gyfarchiad sy' werth ei gofio! Onid yw'r cadw cyn bwysiced â'r rhoi a'r derbyn, a'r diolch? Onid cadw wnaeth Mair?

‘Yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt.’

Diolchwn felly fod y Nadolig wedi dod ac nid fel fy nghyfaill dymuno iddo fynd! Fel y dywedodd Dafydd Jones yn ei emyn:

‘Frodyr, dewch, llawenhewch,
diolchwch iddo, byth na thewch!’

Dyma'r geni a dry'n nos yn ddydd, a dry'n ffydd yn ffaith, ac yng nghanol gorthrymder a gormes Herodiaid ein hoes cyhoedda'r Nadolig eto bod Crist yn fyw ac a fyynn deyrnasu. Dyma'n siwr destun diolch diddiwedd!